Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Elidyr

Rhandirmwyn
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0NL

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Elidyr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Coleg Elidyr |
| Statws y perchennog / perchnogaeth y coleg | Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr, cwmni elusennol |
| Dyddiad penodi'r Pennaeth / Pennaeth Addysg | 01/05/2021 |
| Nifer y dysgwyr ar y gofrestr adeg yr arolygiad | 19 |
| Manylion am ardal y darparwr, gan gynnwys campysau | Mae'r coleg mewn lleoliad gwledig ger Llanymddyfri o fewn ystâd sy'n ymestyn i 180 erw ac yn cynnwys gardd gegin, tir amaeth a choetir |
| Cefndir ac amgylchiadau'r dysgwyr | • Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn derbyn gofal<br>• Mae llawer o ddysgwyr yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ac ychydig ohonynt yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol yn Lloegr<br>• Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn mynychu fel dysgwyr dydd<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu fel dysgwyr preswyl: |
| Canran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg neu'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg | 10.5% |
| Nifer y dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig | Mae ychydig iawn o ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig |
| Nifer o staff yn ôl rôl | • 1 Pennaeth Addysg a Hyfforddiant<br>• 1 Dirprwy Bennaeth Addysg |

| | |
|---|---|
| | • 4 Cydlynydd (Hyfforddiant, Profiad Gwaith, Datblygiad Personol a Thechnoleg Ddigidol)<br>• 7 Tiwtor<br>• 6 Chynorthwyydd Cymorth Dysgu Lefel Uwch<br>• 8 Gweithiwr Cymorth Dysgu |
| Newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, e.e. newid yn enw'r darparwr neu'r campysau | Penodwyd prif swyddog gweithredol newydd ym mis Medi 2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/10/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/04/2025 |

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae Coleg Elidyr yn goleg arbenigol annibynnol ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 25 oed. Caiff ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr, sef cwmni elusennol.

Mae'r coleg mewn lleoliad gwledig ger Llanymddyfri o fewn ystâd sy'n ymestyn i 180 erw ac yn cynnwys gardd gegin, tir amaeth a choetir.

Mae 19 o ddysgwyr yn y coleg ar hyn o bryd, a bron pob un ohonynt yn byw mewn un o'r chwe chartref preswyl ar y safle. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn mynychu fel lleoliadau dydd.

Mae gan ddysgwyr yn y coleg ystod o anawsterau ac anableddau dysgu. Daw llawer o'r dysgwyr o Gymru.

Mae'r pennaeth addysg a hyfforddiant wedi bod yn ei swydd er 2021 ac fe'i cefnogir gan ddirprwy bennaeth. Mae prif swyddog gweithredol newydd wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2024.

Mae'r coleg yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed yn 2025.

## Trosolwg

Mae Coleg Elidyr yn goleg hynod gynhwysol, croesawgar a meithringar. O ganlyniad, mae dysgwyr a staff yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt. Yn ychwanegol, mae dysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg ac yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â staff.

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd sylweddol i ddysgwyr ddatblygu medrau yn barhaus mewn lleoliadau bywyd go iawn ac yn y gymuned ehangach, a fydd yn eu cynorthwyo yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn y coleg.

Mae'r coleg yn diwallu anghenion dysgwyr yn eithriadol o dda. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau pwrpasol, gan gynnwys profiad gwaith mewnol ac allanol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos ymddygiadau hynod gadarnhaol, yn gwrtais, ac yn sgwrsio'n hyderus ag ymwelwyr a chyfoedion, lle maent yn abl i wneud hynny.

Mae'r coleg yn cefnogi anghenion dysgwyr yn effeithiol trwy ddefnyddio'i ymagwedd 'cyfathrebu cyflawn', sy'n golygu bod staff yn dod o hyd i gyfuniad perthnasol o ddulliau cyfathrebu sydd wedi'u teilwra i bob dysgwr unigol, ac yn eu defnyddio. Caiff hyn ei ymgorffori'n dda iawn, ac o ganlyniad, mae dysgwyr yn rhannu eu meddyliau a'u teimladau â hyder. Mae hyn yn gryfder nodedig yn y coleg.

Mae staff yn darparu cymorth unigoledig effeithiol trwy addysgu hynod fedrus, ac yn defnyddio ystod eithriadol o dda o adnoddau. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gweithio mewn amgylcheddau realistig o ansawdd uchel, yn defnyddio ystod o dechnolegau ac yn elwa ar adnoddau dwyieithog. Mae staff yn hwyluso lefelau uchel o annibyniaeth ac yn cefnogi ystod eang o anghenion dysgu a chyfathrebu ychwanegol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau lleol a chenedlaethol, a ledled y Deyrnas Unedig. Mae dysgwyr yn cystadlu ar draws ystod o sectorau gan gynnwys lletygarwch, manwerthu, y celfyddydau perfformiadol, garddwriaeth, iechyd, gwaith coed a gofal anifeiliaid. Mae dysgwyr yn falch o rannu eu cyflawniadau.

Mae'r cwricwlwm datblygiad personol yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o faterion pwysig a'r byd ehangach yn llwyddiannus. Mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am aros yn ddiogel ar gludiant cyhoeddus, yn y gymuned ac ar-lein yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn gryfder arbennig yn y coleg.

Mae arweinwyr y coleg yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n cael ei chyfleu'n dda. Mae ffocws cryf ar adeiladu cymuned, sy'n rhoi lles pennaf dysgwyr yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir. Mae arweinwyr yn deall y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y coleg. Maent yn nodi'r rhain yn llwyddiannus ac yn rhoi camau addas ar waith. O ganlyniad, ceir diwylliant o welliant parhaus a gaiff ei ymgorffori'n eithriadol o dda.

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer pob un o'r staff. O ganlyniad, mae staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cynnig cymorth a gofal gwych i ddysgwyr.

Caiff y tîm arweinyddiaeth ei gefnogi yn y coleg gan grŵp o ymddiriedolwyr. Mae'r ymddiriedolwyr yn darparu llywodraethu effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y coleg.

## Argymhellion

Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud â'r arolygiad hwn. Dylai'r coleg barhau â'i daith i wella.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn cael ymweliad monitro fel rhan o'r cylch arolygu.

## Prif werthusiad

### Addysgu a dysgu

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd hynod gryf ar draws ystod o fedrau yn ystod eu cyfnod yng Ngholeg Elidyr. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol ac yn datblygu ystod gynhwysfawr o fedrau perthnasol, sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Mae'r coleg yn rhoi cyfleoedd sylweddol i ddysgwyr ddatblygu'r medrau hyn ymhellach mewn lleoliadau bywyd go iawn ac yn y gymuned ehangach. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn y coleg.

Mae staff yn darparu addysgu hynod fedrus a chymorth unigoledig effeithiol gan ddefnyddio ystod eithriadol o dda o adnoddau. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gweithio mewn amgylcheddau realistig o ansawdd uchel, yn defnyddio ystod o dechnolegau ac yn elwa ar adnoddau dwyieithog. Pan fo'n briodol, mae staff yn darparu lefelau cymorth unigoledig i sicrhau lefel gyson o her. Mae'r ymagwedd hon yn hynod effeithiol o ran ymestyn dysgwyr i ddatblygu eu medrau a'u hannibyniaeth ymhellach.

Mae staff yn cynllunio sesiynau hynod ddifyr gyda ffocws cyson ar weithgareddau pwrpasol ac ystyrlon. Mae gweithgareddau wedi'u cynllunio yn cynnwys ffocws cryf ar ddatblygiad medrau yn ogystal â thargedau dysgwyr unigol.

Mae staff yn rhoi cyfarwyddiadau clir i ddysgwyr ac yn teilwra'u defnydd o holi ac adborth yn effeithiol i anghenion unigolion. O ganlyniad, mae dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau staff a'r cynnydd a wnânt. Mae defnydd medrus staff o holi yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach.

Mae staff cymorth yn darparu safon uchel iawn o ofal ac arweiniad ar gyfer dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Maent yn hwyluso lefelau uchel o annibyniaeth ac yn cefnogi ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol a chyfathrebu yn fedrus.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd eithriadol o dda sy'n berthnasol i'w man cychwyn unigol yn eu medrau llafaredd, gwrando a chyfathrebu yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Mae hyn yn gryfder nodedig yn y coleg. Er enghraifft, mae dysgwyr yn dangos ymwelwyr o gwmpas y coleg â hyder a brwdfrydedd. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn ystod eu cyfnod yng Ngholeg Elidyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u staff, eu cyfoedion a thrigolion o'r ddarpariaeth bywydau cynhwysol yn y sesiwn siop goffi wythnosol ar y safle.

Tra byddant yn y coleg, mae dysgwyr yn ffynnu mewn lleoliad cymunedol cyfarwydd ac eithriadol o dda i fyw bywydau mwy annibynnol. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn datblygu medrau annibyniaeth cryf. Er enghraifft, mae bron pob un ohonynt yn cyrraedd sesiynau yn brydlon ac yn gweithio ag annibyniaeth gynyddol. Un o'r cryfderau nodedig yw bod lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd i symud o gwmpas y safle helaeth yn gwbl annibynnol.

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau corfforol oherwydd bod cyfleoedd yn cael eu hintegreiddio ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae dysgwyr yn defnyddio campfa'r coleg ac yn datblygu medrau ffitrwydd swyddogaethol wrth arddio a gofalu am anifeiliaid.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn, er enghraifft mesur hydau pren i adeiladu mainc a thrin arian wrth werthu cynnyrch o'r ardal arddio. Yn ychwanegol, mewn sesiynau coginio, mae dysgwyr yn defnyddio amseryddion ac yn pwyso a mesur cynhwysion yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Maent yn cyrraedd yn brydlon, yn gweithio'n effeithiol gyda staff a chyfoedion ar ystod o dasgau, ac mae ganddynt bresenoldeb da iawn. Mae dysgwyr yn croesawu ymwelwyr i'r coleg ac yn rhannu eu gwaith â balchder. Mae dysgwyr yn hynod weithredol o ran gwneud dewisiadau am eu dysgu. Er enghraifft, trwy adolygiadau rheolaidd o'u hamserlenni gyda thiwtoriaid, mae dysgwyr yn dewis eu sesiynau amserlenedig a'u lleoliadau profiad gwaith.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos ymddygiad eithriadol o dda mewn sesiynau ac o gwmpas y coleg. Mae staff yn defnyddio cymorth ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol ar gyfer dysgwyr, sy'n cyfrannu at yr amgylchedd dysgu digynnwrf. Mae dysgwyr yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gweithgareddau dysgu, yn dathlu cyflawniadau eu cyfoedion ac yn rhyngweithio'n hynod gadarnhaol â staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn gyflawniad nodedig.

**Ciplun – Cystadlaethau Medrau**:

Trwy gydol eu cyfranogiad mewn cystadlaethau medrau lleol, cenedlaethol a ledled y Deyrnas Unedig, mae dysgwyr yn elwa ar y profiad i gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau dilys dan bwysau. Mae'r cyfleoedd hyn ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys lletygarwch, manwerthu, y celfyddydau perfformiadol, garddwriaeth, iechyd, gwaith coed a gofal anifeiliaid.

Mae dysgwyr yn awyddus i rannu eu cyflawniadau a sut maent wedi dangos y medrau hyn a'u parodrwydd am waith ac annibyniaeth. Mae dysgwyr yn datblygu hyder a gwydnwch yn arbennig o dda.

Mae'r coleg wedi meithrin perthnasoedd cryf â busnesau lleol sy'n galluogi dysgwyr i ymarfer a dysgu medrau penodol y maent yn eu defnyddio yn y gweithle ac yn eu bywydau bob dydd. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn y coleg.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai'r darparwr:

- barhau i gynnal y safon uchel iawn o addysgu a dysgu a arsylwyd yn ystod yr arolygiad hwn

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Coleg Elidyr yn darparu amgylchedd hynod feithringar, groesawgar a pharchus ar gyfer dysgwyr. Ceir ethos cymunedol cryf sy'n treiddio trwy bob agwedd ar waith y coleg. O ganlyniad, mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg ac yn teimlo'n ddiogel a saff. Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae staff a dysgwyr yn datblygu perthnasoedd hynod gadarnhaol yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt.

Caiff anghenion dysgwyr eu deall yn eithriadol o dda gan staff. Caiff hyn ei gefnogi'n dda gan dîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol ac arweinydd ymddygiad cadarnhaol. Mae'r tîm hwn yn cefnogi datblygiad ymagwedd cyfathrebu cyflawn hynod effeithiol. Mae staff yn darparu lefelau gwych o ofal a chymorth ar gyfer dysgwyr, tra'n eu cynorthwyo i weithio'n annibynnol. O ganlyniad, caiff anghenion dysgwyr eu diwallu'n effeithiol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos ymddygiadau hynod gadarnhaol, maent yn gwrtais, ac yn sgwrsio'n hyderus ag ymwelwyr a chyfoedion, lle gallant.

Mae'r cwricwlwm datblygiad personol a'r system atgyfeirio unigol yn darparu cyfleoedd hynod fuddiol a gwerthfawr i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o faterion pwysig a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn y gymuned ac ar-lein. Gyda chymorth yr heddlu lleol, maent yn dysgu am risgiau radicaleiddio. Ymhellach, mae dysgwyr yn cymryd rhan yng nghynllun Hyfforddiant Teithio Great Western Railway (GWR) i gefnogi eu dealltwriaeth o aros yn ddiogel ar gludiant cyhoeddus.

Mae dysgwyr yn chwarae rôl lawn a gweithredol ym mywyd y coleg ac yn falch o fod yn aelodau o gymuned ehangach Elidyr. Maent yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau yn fewnol ac yn allanol, fel ei gilydd, sy'n datblygu eu medrau arwain, er enghraifft bod yn aelodau o fforymau dysgwyr i drafod dathliadau'r coleg yn 50 oed, a fydd yn cael eu cynnal cyn bo hir ac/neu fod yn swyddogion diogelu dysgwyr sy'n darparu hyfforddiant i ddysgwyr newydd am ble i gael cymorth o fewn y coleg. Yn allanol, mae dysgwyr wedi helpu cefnogi busnesau lleol a'r archfarchnad, yr heddlu lleol a darparwyr gofal iechyd i ddatblygu cymhorthion cyfathrebu â symbolau, sy'n cael eu harddangos ar y safleoedd hyn. O ganlyniad, maent wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wella hygyrchedd y wybodaeth o fewn y gymuned ehangach.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn profiad gwaith mewnol ac allanol pwrpasol gyda chwmnïau lleol. Er enghraifft, mae lleiafrif o ddysgwyr yn gweithio mewn cwmni masnachol cyfagos yn cynorthwyo â phecynnu sebonau sydd wedyn yn cael eu dosbarthu i westyau ledled Cymru. Mae profiad gwaith ar y safle yn ystyrlon ac yn darparu profiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cwblhau gwaith stacio silffoedd, rhestru nwyddau a chylchdroi stoc wrth weithio yn y siop gymunedol.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o weithgareddau sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant eu hunain a'r byd ehangach. Trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau, mae dysgwyr yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau annibyniaeth. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn y coleg.

Mae gan arweinwyr brosesau cadarn ar gyfer derbyn dysgwyr i'r coleg, ac maent wedi dechrau cynnig lleoliadau i ychydig iawn o ddysgwyr dydd yn ddiweddar. Mae'r coleg wrthi'n adolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr dydd. Caiff dysgwyr eu cefnogi â gweithgareddau pontio buddiol i helpu eu cyfnod integreiddio i'r coleg, a chânt eu cefnogi'n effeithiol i baratoi ar gyfer eu cyfnod pontio wrth adael y coleg.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cadarn yn y coleg. Mae staff yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon. Caiff hyn ei gryfhau gan berthnasoedd gwaith mewnol cryf rhwng ymddiriedolwyr, timau addysg, therapi a phreswyl lle mae'r dysgwr yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir. Ymhellach, mae prosesau recriwtio mwy diogel yn gadarn.

### Ciplun: ymagwedd cyfathrebu cyflawn

Mae gan Goleg Elidyr ymagwedd cyfathrebu cyflawn wedi'i hymgorffori'n dda iawn ar waith i gefnogi anghenion cyfathrebu dysgwyr. Mae ymagwedd cyfathrebu cyflawn yn galluogi unigolion sydd ag anawsterau cyfathrebu i gyfathrebu yn y ffordd sydd fwyaf hygyrch iddyn nhw. O ganlyniad, mae'r coleg wedi datblygu amgylchedd hynod gynhwysol lle gall dysgwyr rannu eu barn, eu meddyliau a'u teimladau â hyder. I lawer o ddysgwyr, mae hyn yn gynnydd sylweddol o'u man cychwyn cychwynnol.

Mae staff yn defnyddio amrywiaeth o arwyddion, symbolau a lleferydd yn Gymraeg a Saesneg i gefnogi dysgwyr trwy gydol y dydd. Mae'r ymagwedd hon yn hynod effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth, datblygiad medrau a chyfathrebu dysgwyr â phobl eraill.

Mae'r coleg wedi rhoi ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol i sicrhau amgylchedd cyfathrebu o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr. Ymhellach, mae staff yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel yn gyson yn y coleg, a hefyd o fewn y gymuned ehangach, i gynorthwyo dysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gweithio ag annibyniaeth gynyddol wrth ddilyn systemau gweithio â symbolau pan fyddant ar brofiad gwaith yng ngerddi ac ystâd 'Parc yr Esgob'.

**Ciplun – darpariaeth Gymraeg:**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn gryfder arbennig yn y coleg. Caiff dysgwyr gyfleoedd helaeth i gael sesiynau wedi’u cyflwyno yn Gymraeg. Yn ychwanegol, mae staff yn integreiddio’r Gymraeg ar draws y cwricwlwm cyfan ac yn y rhan fwyaf o wersi.

Mae dysgwyr sy’n cymryd rhan yn y grŵp cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, ‘Clwb Clonc’, yn ymgysylltu’n hynod lwyddiannus â’u datblygiad a’u dealltwriaeth o’r Gymraeg a’i diwylliant. Mae ychydig o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn sgwrsio â staff, gan ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach.

Mae’r coleg wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac wedi rhoi hyfforddiant ar waith i gefnogi datblygiad staff yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn gryfder yn y coleg.

Er mwyn gwella, dylai’r darparwr:

- werthuso trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr dydd

## Arwain a gwella

Mae Coleg Elidyr yn gymuned hynod gynhwysol a chroesawgar lle mae staff yn ymdrechu i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a’u medrau i gyrraedd eu llawn botensial. Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir, sy’n cael ei deall a’i hymgorffori’n dda iawn gan staff. Mae ymrwymiad y staff i werthoedd y coleg yn cyfrannu’n sylweddol at ddysgu a lles eithriadol o dda’r dysgwyr.

Caiff prif swyddog gweithredol y coleg ei gefnogi gan y pennaeth addysg a hyfforddiant, y dirprwy bennaeth addysg a thîm o gydlynwyr. Mae gan y tîm arweinyddiaeth ddiben clir ar gyfer y coleg ac maent wedi nodi sut i yrru gwelliannau gan ddefnyddio model arweinyddiaeth ddosbarthedig. Maent yn sensitif i anghenion presennol yn y coleg, newidiadau cenedlaethol a heriau posibl yn y dyfodol. Mae arweinwyr yn fodelau rôl hynod gadarnhaol ar gyfer dysgwyr a staff, gan ddangos pwysigrwydd gwrando, gwaith tîm a pharch. Maent yn sicrhau ffocws cryf ar adeiladu cymuned lle mae staff a dysgwyr yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi i gyflawni o’u gorau.

Mae arweinwyr wedi sefydlu tîm o staff sy’n llawn cymhelliant ac mae lles pennaf dysgwyr yn ganolog i’w gwaith. Mae staff yn gwerthfawrogi’r cymorth o ansawdd da a gânt gan arweinwyr a’r ymddiriedolaeth ehangach. Mae prosesau rheoli perfformiad yn glir. Mae’r rhain yn cynorthwyo staff i ddatblygu’n broffesiynol a gweithio tuag at flaenoriaethau strategol ehangach y coleg, hefyd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cynnig lles hynod gadarnhaol i gefnogi eu staff. Er enghraifft, mae ganddynt hyrwyddwyr lles neilltuedig ac maent yn cynnal gweithgareddau lles wythnosol, gan gynnwys diwrnodau allan. Dywed bron pob un o'r staff fod arweinwyr yn poeni am eu lles.

Mae gan ymddiriedolwyr ddealltwriaeth gadarn iawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y coleg. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd, gan fonitro a dylanwadu ar flaenoriaethau strategol yn effeithiol. Ymhellach, maent yn cefnogi a herio uwch arweinwyr yn effeithiol trwy raglen oruchwylio, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd â'r coleg.

Mae arweinwyr wedi meithrin partneriaethau hynod effeithiol ag ystod o randdeiliaid i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau â rhieni, gwasanaethau brys, darparwyr GIG, busnesau lleol, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, maent yn darparu profiad gwaith trwy berthnasoedd â busnesau lleol ac wedi defnyddio partneriaethau â cholegau addysg bellach a darparwyr cystadlaethau medrau i wneud cystadlaethau cenedlaethol yn fwy cynhwysol ar gyfer y dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, maent yn gyrru gwelliannau ar gyfer dysgwyr ar lefel leol a chenedlaethol. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn y coleg.

Mae arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i gasglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol i yrru gwelliant yn y coleg. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau tymor byr, fel mireinio targedau neu addasu amserlenni. Mae hefyd yn cynnwys nodi meysydd i'w gwella, sydd wedyn yn llywio'r cynllun gwella ansawdd coleg-cyfan.

Mae arweinwyr yn llawn cymhelliant ac yn gweithio'n ddiflino i barhau i wneud gwelliannau ar gyfer dysgwyr a staff. Maent wedi llwyddo i sefydlu diwylliant hynod effeithiol o welliant parhaus. Mae arweinwyr y coleg wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cysylltu'n dda â deilliannau hunanwerthuso. Mae arweinwyr yn gwybod yn glir beth yw cryfderau a meysydd i'w datblygu'r coleg ac yn ceisio adeiladu ar welliannau yn barhaus. Mae gan y coleg hanes cryf iawn o wneud gwelliannau ystyrlon, a'u cynnal.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cryfhau ymagweddau at hunanwerthuso yn sgil datblygu offeryn hunanarchwilio, sydd wedi'i bersonoli i'r darparwr ac yn cael ei gwblhau mewn cydweithrediad â'r tîm arweinyddiaeth ehangach. Mae effaith y gwaith hwn yn dod i'r amlwg o hyd.

Mae arweinwyr yn rhoi'r dysgwr yn ganolog i bopeth a wnânt, ac yn gweithio gyda diben gan ymdrechu am welliannau parhaus. O ganlyniad, maent wedi ehangu'r cynnig cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cefnogi datblygiad medrau ystyrlon.

Mae arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm eang, arloesol a phwrpasol, sy'n hyblyg i ddiwallu diddordebau a dewisiadau dysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau am eu profiad gwaith a gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt, gan arwain at ymgysylltiad gwell. Mae arweinwyr wedi parhau i adeiladu ar welliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn i sicrhau bod dysgwyr yn gadael y coleg â'r medrau a fydd yn eu cefnogi yn eu bywydau yn y dyfodol, er enghraifft ychwanegu cystadlaethau medrau yn rhan o'r cynnig cwricwlwm craidd yn ddiweddar i roi cyfleoedd i bob un o'r dysgwyr arddangos y medrau y maent wedi'u datblygu yn y coleg. Mae'r ymagwedd hon sy'n canolbwyntio ar fedrau yn gryfder nodedig yn y coleg.

**Ciplun – Dysgu Proffesiynol:**

Mae arweinwyr yn rhoi gwerth eithriadol o uchel ar ddysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff. Mae hyn yn adlewyrchu arfer eithriadol o dda.

Mae'r coleg yn darparu ystod helaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol hynod berthnasol i wella medrau'r tîm staff i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ffocws addas ar addysgu a dysgu yn ogystal â diwallu anghenion ychwanegol dysgwyr. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd i arsylwi arfer dda o fewn y coleg ac wrth ymweld â lleoliadau eraill. Ymhellach, mae dysgu proffesiynol yn cefnogi datblygiad arweinyddiaeth ar draws y coleg, er enghraifft trwy hyfforddi a hyfforddiant mentora.

Mae staff yn cydweithio fel rhan o 'gymunedau dysgu proffesiynol' i ganolbwyntio ar feysydd arfer y maent eisiau eu gwella. Er enghraifft, bu staff yn canolbwyntio'n ddiweddar ar ffyrdd o gynyddu eu hyder yn ystyrlon wrth gynllunio a hwyluso gweithgareddau corfforol ar gyfer dysgwyr. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio newidiadau ac wedyn gwerthuso'r effaith. O ganlyniad, mae dysgwyr yn fwy egnïol yn eu bywydau o ddydd i ddydd erbyn hyn.

Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar arfer fel mater o drefn, gan gynnwys arsylwadau cymheiriaid a chymunedau dysgu proffesiynol.

Er mwyn gwella, dylai'r darparwr:

- werthuso effaith mentrau lles staff a gyflwynwyd yn ddiweddar
- adolygu'r ymagweddau newydd at hunanwerthuso

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr yn achosi unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn rhieni, athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, gweithdy ac ar-lein ar draws y ddarpariaeth
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y coleg ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2025